Dewis offer ar gyfer gweithio ar uchder

Ymgyrch 'Height Aware'

Taflen wybodaeth 2

Os ydych yn gweithio ar uchder, neu'n contractio eraill i'w wneud, bydd y wybodaeth hon yn eich helpu i ddewis yr offer cywir ar gyfer y gwaith.

Pa ffactorau y mae angen i chi eu hystyried?

Amodau gwaith

Wrth benderfynu ar ba fath o offer sydd fwyaf addas ar gyfer tasg benodol, ystyriwch y canlynol:

- llethrau neu amodau gwael o ran y llawr;
- rhwystrau, ee durwaith neu fargodion;
- wynebau bregus;
- llwythi ar lawr.

Yr uchder i'w ddringo

Mae ysgolion cludadwy yn llai addas ar gyfer uchderoedd mawr, yn enwedig os oes angen cario llwythi. Lle y bo'n bosibl, darparwch risiau dros dro neu sgaffaldiau t_r mynediad gyda grisiau mewnol, yn hytrach nag ysgolion cludadwy.

Hyd ac amlder y defnydd

Yn gyffredinol, mae gwaith rheolaidd neu gyfnod hir yn cyfiawnhau offer diogelu rhag syrthio o safon well, ee sgaffald t_r, grisiau podiwm neu graen casglu ffrwythau yn hytrach nag ysgol neu ysgol fach. Gall ysgol neu ysgol fach fod yn dderbyniol ar gyfer tasgau byr, ee newid bwlb golau, pan na fyddai adeiladu t_r neu bodiwm yn rhesymol gan mai dim ond ychydig o eiliadau mae'n cymryd i wneud y dasg ei hun. Ond, mae'n bosibl y bydd gwaith o osod sawl rhes o fylbiau golau neu stripiau fflwrolau mewn ffug nenfwd yn cyfiawnhau'r defnydd o d_r neu risiau podiwm gan fod y dasg yn para'n hwy.

Pellter a chanlyniadau syrthio posibl

Os ydych yn defnyddio system lliniaru cwymp, mae'n rhaid i chi sicrhau bod digon o gliriad er mwyn ei defnyddio, fel nad yw'r defnyddwyr yn taro yn erbyn rhwystr neu'n taro'r llawr cyn y caiff y cwymp ei atal.

Os oes rhaid i chi ddefnyddio rhwydi neu fagiau aer, dylent gael eu lleoli mor agos â phosibl i'r lefel gweithio gan nad ydynt yn gweithio mor effeithiol os yw'r pellter syrthio yn rhy fawr.

Gwacáu ac achub

Os oes rhaid i chi ddefnyddio system lliniaru cwymp, mae'n rhaid i chi sicrhau y gellir achub y gweithiwr os yw'n hongian o ymyl to.

Gosod a symud

Wrth ddewis offer gwaith edrychwch ar yr holl risgiau, nid dim ond y rhai sy'n gysylltiedig â'r cyfnod 'defnyddio'. Gall gymryd dau neu fwy o bobl i gydosod sgaffald t_r i fynd i'r to a gosod diogelwch ymylon dros dro, er mai dim ond un person o bosibl sydd ei angen ar y to i wneud y gwaith trwsio, gan roi sawl person mewn perygl fel y gall un person weithio'n ddiogel. Ateb gwell byddai defnyddio craen casglu ffrwythau, fel y gall un person wneud y dasg yn ddiogel o'r llwyfan gwaith. Mae hyn yn osgoi peryglu eraill yn ystod y gwaith gosod a datgysylltu.

Mae hyd yn oed rhagor o risgiau yn gysylltiedig â gwaith ar do ffibr/sment asbestos bregus. Lle y bo'n bosibl, defnyddiwch graen casglu ffrwythau neu sgaffald t_r i gael mynediad at ffenestr do sy'n gollwng a'i thrwsio. Bydd hyn yn dileu'r risgiau sy'n gysylltiedig â gosod a datgysylltu offer gwaith ar y to.

Sut rydych yn penderfynu pa offer i'w ddefnyddio?

Mae angen i chi sicrhau eich bod yn rhoi blaenoriaeth i fesurau cyd-ddiogelwch dros fesurau diogelwch personol.

Beth *yw cyd-ddiogelwch?*

Cyd-ddiogelwch yw offer sy'n gallu diogelu mwy nag un person ac nad oes angen unrhyw gamau ganddynt i sicrhau y bydd yn gweithio, unwaith ei fod wedi'i osod a'i godi'n gywir. Mae enghreifftiau a all atal syrthio yn cynnwys sgaffaldiau, sgaffaldiau t_r a chraeniau casglu ffrwythau sydd â rheiliau amddiffyn ac offer sy'n lleihau canlyniadau syrthio, gan gynnwys rhwydi a bagiau aer.

Beth yw *diogelwch personol?*

Diogelwch personol yw offer sy'n diogelu'r defnyddiwr/gwisgwr yn unig ac sydd angen camau gan yr unigolyn, fel ei wisgo'n iawn a'i addasu, er mwyn iddo weithio. Mae enghreifftiau yn cynnwys offer atal sy'n atal rhywun rhag syrthio ac offer lliniaru cwymp sy'n lleihau canlyniadau syrthio.

Pam rhoi blaenoriaeth i fesurau cyd-ddiogelwch?

Mae sawl mantais yn perthyn i fesurau cyd-ddiogelwch. Maent yn haws i'w defnyddio, yn diogelu pawb sydd o dan risg yn y man gwaith ac mae angen llai o ymdrech o ran eu cynnal a chadw ac o ran hyfforddiant y defnyddiwr. Mae gan fesurau personol anfanteision - mae angen lefel uchel o hyfforddiant a chynnal a chadw arnynt a dim ond y defnyddiwr y maent yn ei diogelu.

LACORS
promoting quality regulation

Beth y mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?

Os gallwch ddarparu cyd-ddiogelwch, dylech wneud hynny. Er enghraifft:

- defnyddiwch sgaffald t_r (cydataliad rhag syrthio) yn hytrach nag offer atal (ataliad personol rhag syrthio);
- defnyddiwch fagiau aer (cydliniariad) yn lle system atal syrthio (lliniariad personol);
- fodd bynnag, dewiswch atal (ataliad personol rhag syrthio) cyn bagiau aer (cydliniariad).

Mae'r tabl isod yn dangos pa offer sy'n darparu cyd-ddiogelwch neu ddiogelwch personol ac a yw'n atal rhywun rhag syrthio neu'n lleihau'r risg o anaf difrifol yn unig. Rhowch flaenoriaeth bob tro i ddefnyddio offer sy'n darparu cyd-ddiogelwch rhag syrthio, a ddangosir yn y bocs isod a gysgodir.

	Cyd-ddiogelwch	Diogelwch Personol
Offer gwaith sy'n atal rhywun rhag syrthio	Rheiliau amddiffyn, sgaffaldiau, sgaffald t_r, craeniau casglu ffrwythau, lifftiau siswrn, grisiau podiwm	Offer atal
Offer gwaith sy'n lleihau canlyniadau syrthio	Bagiau aer, rhwydi diogelwch	Offer lliniaru cwymp
Offer gwaith arall sy'n atal cwymp neu'n ei liniaru	Ysgolion, ysgolion bach, stolion	

Beth arall sydd angen i chi ei wneud?

Sicrhewch fod gan y bobl sy'n dewis, cydosod, defnyddio a goruchwylio defnydd yr offer yr holl wybodaeth berthnasol, ee cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, eu bod wedi'u hyfforddi a'u bod yn gymwys. Sicrhewch y caiff yr offer ei archwilio a'i gynnal a'i gadw'n rheolaidd, gan gynnwys ysgolion ac ysgolion bach.

Hoffech chi ragor o wybodaeth?

Dyma un o bum taflen wybodaeth yr ymgyrch 'Height Aware'. Y gweddill yn y gyfres yw:

Taflen 1: Gweithio ar uchder: Yr hanfodion
Taflen 3: Dewis contractwyr cymwys ar gyfer gweithio ar uchder
Taflen 4: Dewis, defnyddio a chynnal a chadw offer diogelwch personol rhag syrthio
Taflen 5: Mân waith cynnal a chadw toeon: Diogelu rhag syrthio

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr HSE www.hse.gov.uk/falls ac o Linell wybodaeth HSE ar 0845 345 0055.